COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, GORFFENNAF 5ED 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0107/18 Presennol

Yn y Gadair Cyng. Henry Rees-Williams,
Cynghorwyr. D. Owen Jones, A. Williams, D.Bullard, E. Gruffydd, E.J. Hughes, M. Sol Owen, H. Underwood, Ff. Adams, I. Gruffydd,

Cof; - 0207/18 Ymddiheuriadau
……..

Cynghorwyr Elin Hywel, Eric W. Roberts, Mici Plwm,

Cof; - 0307/18 Datgan Diddordeb
……..

Ni fu i unrhyw aelod ddatgan diddordeb mewn unrhyw fater a oedd i'w drafod yn y cyfarfod.

Cof; - 0407/18 Gair gan y Maer
……..

Yn ei absennoldeb, bu'r Maer yrru ddogfen 3 tudalen i bawb o'r Cynghorwyr, mae'r ddogfen yn y cofnodion.

Cynnig i osod y Rheolau Sefydlog o'r neilltu gan Cyng. A. Williams, cafwyd cefnogaeth o ddwy rhan o dair y Cynghorwyr oedd yn presennol, felly trafod y pwnc ar ddiwedd y rhaglen.

Awgrymwyd i'r Maer ysgrifennu llythyr i longyfarch Neil Murray Williams ar gael ei ddewis i gynrychioli Tim Criced UK yn Awstralia.

Cof; - 0507/18 Aelodau'r cyhoedd yn bresenonol

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol

Cof; - 0607/18 Materion Cyfansoddiadol a Staff

a) Trosglwyddo'r hawl i weinyddu ar ran Clerc Cyngor Tref Pwllheli yn y cyfnod hyd cyfarfod llawn y Cyngor ym mis Medi i'r Cyng. Michael Sol Owen a'r Cyng. Elin Hywel.

b) Dan gweinyddu, yr hawl i drwsio'r cadeiriau a phrynu 'dispenser' toweli i'r toiled.

c) Diweddariad Clerc a phenodi Dirprwy. Mae'r Clerc 'nawr adre ar ôl triniaeth ac yn teimlo'n well. Adroddwyd ar penderfyniadau'r Isbwyllgor Penodi Ddirprwy Clerc, a dangoswyd taflen hysbysebu y swydd o Ddirprwy ac adroddwyd bod 5,000 wedi eu archebu, 2,000 Llanw Llŷn, 2,000 Ffynnon. Dyddiad cau i'r ymgeiswyr :- 12:00, 21 Medi 2018.

Cof; - 0707/18 Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Mai, 21018

Cadarnhawyd cofnodion mis Mehefin fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

Cof; - 0807/18 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth
Nid oedd dim mater wedi ei godi o'r cofnodion drwy ohebiaeth.

Cof; - 0907/18 Cynllunio

a) Cyfnewid grisiau allanol 22 a 23 Rhodfa Marian y Môr - cytuno

b) Adeiladu estyniad ochr unllawr Rochford Yr Ala - cytuno

c) Copi papur o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2011 - 2026 Gwynedd/Môn – er gwybodaeth

ch) Adran Priffyrdd – St. Churton a Potts gwaith slyri ar droedffyrdd (Mehefin/Gorffennaf) –er gwybodaeth

Cof; - 1007/18

10. Cais am grant gyda taflen ariannol, gan Clwb Criced Pwllheli i adnewyddu/trwsio peiriannau.

(Er gwybodaeth rhoddwyd cyfraniad o £500 iddynt 10/07/2017)

Pasiwyd i gyfranu £1,000 am y flwyddyn ariannol yma.

Cof; - 1107/18

11. Cais gan y Clwb Snwcer.

(Er gwybodaeth, rhoddwyd cyfraniad o £1,000 iddynt 10/07/2017)

Awgrymu os oedd y Cyngor yn fodlon cyfrannu, bod y cyfraniad yn seiliedig ar daflen ariannol dderbynniol. Nawr wedi ei dderbyn.

Pasiwyd i gyfrannu £1,000 am y flwyddyn ariannol yma.

Cof; - 1207/18

Blodau a Chwyn yn y dref

Cyng. Elfed Gruffydd, adroddwyd bod rhai o'r potiau blodau mewn cyflwr gwael. **Pasiwyd** i gysylltu â Thyddyn Sachau i blannu o leiaf 10 ohonynt mor sydyn a phosib. Y dyfrio i fod mewn dwylo gwirfoddolwyr. Awgrymwyd gyrru e-bost i'r Cyng Mike Parry (Partneriaeth Pwllheli) i ofyn os oes pres ar gyfer gweddill o'r potiau.

Cof; - 1307/18

13. Y Tram,

a) Adroddiad gan Cyng. Michael Sol Owen:- lluniau o'r Tram. Mae paentio'r Tram wedi cychwyn ond yn cael ei ohirio oherwydd y tywydd poeth. Bydd angen ystyried gorchudd yn yn dyfodol.

Cof; - 1407/18 Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli

14. Dyfodol Clwb Ieuenctid Pwllheli

Adroddiad gan Cyng. D Bullard, fod Gwynedd i ariannu swyddog llawn amser i weithredu rhwng Ysgolion Glan y Môr a Botwnnog. Aneglur pa bryd mae hwn am gychwyn angen ysgrifennu i Wynedd am wybodaeth (H.Underwood i holi am enw'r swyddog priodol)

Cof; - 1507/18 Mynwent Denio – diffyg cynnal a chadw

15. Mynwent Denio - diffyg cynnal a chadw

a) Adroddiad gan Cyng. D Bullard, oherwydd y tywydd poeth a sych mae cyflwr torri'r gwellt wedi gwella. **Pasiwyd** i ohirio unrhyw benderfyniad tan y flwyddyn 2019.

Cof; - 1607/18

16. Regata Pwllheli

Cyng. Ffiona Adams, **Pasiwyd** i benodi Ff. Adams fel cynrychiolydd swyddogol y Cyngor ar y Pwyllgor Regata a chyfrannu £100 tuag at y gweithgareddau.

Cof; - 1707/18

17. Safle Bysus

Cyng
. Ffiona Adams, adroddwyd bod Ff. Adams wedi cael cyfarfod gyda'r swyddog priodol a chael dealltwriaeth bod gwelliannau ar y gweill, ond angen i bwyso am fwy.

Cof; - 1807/18

18. Toiledau y Maes Pwllheli

Cyng. Henry Rees Williams, tynnwyd sylw bod y Cyngor yma yn cyfranu £14k ar gyfer cadw'r toiledau'n agored yn y dref. **Pasiwyd** i ofyn faint o bres sydd yn cael ei gasglu yn nhoiled y Maes a lle mae'r pres yna'n mynd.

Cof; - 1907/18

18. Adroddiad ar Archwiliad y Cyfrifon – ar y Bwrdd

Sylw gan Cyng Michael Sol Owen, mae'r Archwiliwr yn pasio'r cyfrifon, ond mae angen sylw ar gyfer y symiau sydd yn meddiant y Cyngor. **Pasiwyd** i gael adroddiad ariannol i'r Cyngor fis Medi sydd yn amlinellu faint o arian sydd ar gael i wahanol weithgareddau/prosiectau.

Cof; - 2007/18

20 Derbyniadau

250.00	Rhent Market Hall	CR
250.00	Rhent Adams	CR
5.20	Llog Banc	
2.47	Llog N.S Bond	CR

Cof; - 2107/18

21Taliadau

3.92	Apogee Corp (inc)	203011
92.40	Argraffdy Sul y Maer	203012
3000	Cyfrif y Maer 2018/19	203013
1221.93	Costau gweinyddol rhedeg y siambr	sieciau
169.00	Argraffdy Sul y Maer taflenni	203015
331.92	S Andrews Rent storfa	203016
118.00	Argraffdy Taflenni hysbysu swydd Ddirprwy Clerc	203017
333.24	HMRC Mis 3	203018

RHODDI'R RHEOLAU SEFYDLOG I'R NEILLTU

Trafodwyd cais Cyng A. Williams parthed nwyddau tu allan i Bodawen, cafwyd yr wybodaeth bod swyddog wedi bod i weld y perchennog. **Pasiwyd** i ysgrifennu i'r swyddog priodol yng Ngwynedd i holi am dystiolaeth trwydded masnachu ar y palmant – Bodawen.

Trafodwyd ail gais Cyng A. Williams sef ysbwriel ar Traeth Marian y De

(Y Prom). Dim cynnig

DYCHWELYD I REOLAU SEFYDLOG

Daeth y Cyngor i ben am 7:50 y.h

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 6 Medi 2018

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 28 o Awst, 2018.